



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Adolygiad o reolaethau bwyd anifeiliaid ar gyfer Cymru a Lloegr

Ymgynghoriad ynghylch a ddylai Cymru a Lloegr  
newid eu rheolaethau bwyd anifeiliaid sy'n gysylltiedig  
ag Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy  
(TSEau)

Chwefror 2025

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [feedcontrolsconsultation@defra.gov.uk](mailto:feedcontrolsconsultation@defra.gov.uk)

## Cynnwys

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn .....	4
Sut i ymateb.....	4
Crynodeb gweithredol.....	8
Cefndir.....	9
Newidiadau polisi arfaethedig.....	10
Atodiad .....	19

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Dim ond ar gyfer Cymru a Lloegr mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar wahân ar yr un pwnc. Ymatebwch i un ymgynghoriad yn unig, hynny yw, yr un lle mae eich diddordeb.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Mae'n bwysig ein bod yn clywed gan y rhai y bydd y cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, aelodau o'r cyhoedd, ceidwaid da byw, ffermwyr, cyfunwyr gartref, melinau bwyd, rendrwyr, gweithfeydd torri, lladd-dai, cludwyr, cyrff masnach y diwydiant, swyddogion gorfodaeth yn ogystal â chyrff anllywodraethol sydd â diddordeb mewn rheolaethau bwyd anifeiliaid.

Ymgynghoriad yw hwn ynghylch a ddylai Cymru a Lloegr newid eu rheolaethau bwyd anifeiliaid er mwyn caniatáu'r canlynol:

- protein dofednod wedi'i brosesu mewn bwyd moch
- protein moch wedi'i brosesu mewn bwyd dofednod
- protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd moch a dofednod
- collagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil

### Hyd

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 8 wythnos rhwng 04/02/2025 a 01/04/2025.

### Sut i ymateb

Gofynnwn i chi ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein, sydd ar gael yn y Gofod Dinasyddion [yma](#). Fodd bynnag, gallwch hefyd lwytho'r ffurflen i lawr ac anfon eich ymatebion drwy e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Os ydych chi'n anfon eich ymateb drwy e-bost neu'r post, cofiwch gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?
  - a. Ydw
  - b. Nac ydw
2. Os mai 'ydw' oedd eich ateb, rhowch eich rheswm:
3. Beth yw eich enw llawn?
4. Beth yw eich sefydliad, os yw'n berthnasol?
5. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi, eich daliad, neu eich sefydliad, orau?

- a. Melin porthiant cyfansawdd
- b. Gwneuthurwr cynhwysion bwyd anifeiliaid
- c. Ffermwr dofednod
- d. Ffermwr gwartheg
- e. Ffermwr defaid
- f. Ffermwr moch
- g. Ffermwr arall
- h. Cynhyrchwr protein pryfed
- i. Cymdeithas masnachu
- j. Lladd-dy
- k. Gwaith torri
- l. Gwaith rendro
- m. Cludwr
- n. Manwerthwr
- o. Aelod o'r cyhoedd
- p. Swyddog gorfodaeth
- q. Arall

6. Os ydych chi wedi ateb 'arall', rhwch fanylion:

7. Ydych chi'n cytuno â chaniatáu protein dofednod wedi'i brosesu mewn bwyd moch?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ddim yn gwybod

8. Esboniwch eich rhesymau, os gwelwch yn dda:

9. Ydych chi'n cytuno â chaniatáu protein moch wedi'i brosesu mewn bwyd dofednod?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ddim yn gwybod

10. Esboniwch eich rhesymau, os gwelwch yn dda:

11. Ydych chi'n cytuno â chaniatáu protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd moch a dofednod?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

c. Ddim yn gwybod

12. Esboniwch eich rhesymau, os gwelwch yn dda:

13. Ydych chi'n cytuno â chaniatáu colagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ddim yn gwybod

14. Esboniwch eich rhesymau, os gwelwch yn dda:

15. Ydych chi'n cytuno â'r mesurau arfaethedig i atal croeshalogi yn y gadwyn bwyd anifeiliaid?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ddim yn gwybod

16. Esboniwch eich rhesymau, os gwelwch yn dda:

## **Manylion cyswllt**

E-bost: [feedcontrolsconsultation@defra.gov.uk](mailto:feedcontrolsconsultation@defra.gov.uk)

Cyfeiriad:

Ymgynghoriad – Adolygiad o reolaethau bwyd anifeiliaid

Defra – 2<sup>nd</sup> floor NE Mail point A

Seacole Building

2 Marsham Street

Llundain

SW1P 4DF

## **Hysbysiad preifatrwydd a diogelu data**

### **Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu**

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth sydd ar gael [yma](#).

### **Gwybodaeth Arall**

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [“Egwyddorion Ymgynghori”](#) Swyddfa'r Cabinet.

## Crynodeb gweithredol

Grŵp o glefydau niwrolegol angheuol ydy eneffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEau). Yn benodol, mae TSEau yn cynnwys clefyd y crafu mewn defaid a geifr, eneffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) – a elwir hefyd yn ‘glefyd y gwartheg gwallgof’ – mewn gwartheg, nychdod cronig (CWD) mewn ceirw, a chlefyd amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (vCJD) mewn pobl.

Gwelwyd yr achos cyntaf o BSE yn y Deyrnas Unedig (DU) ym 1986, ac ers hynny mae dros 180,000 o achosion wedi cael eu cadarnhau mewn gwartheg yn y DU. Cadarnhawyd 37,056 o achosion ar anterth yr epidemig ym 1992. Mae BSE clasurol yn digwydd drwy fwyta bwyd sydd wedi'i halogi â'r cyfrwng BSE ac ystyrir ei fod yn filheintiol (trosglwyddadwy i bobl) yn sgil ei gysylltiad tybiedig â vCJD wrth fwyta cig wedi'i halogi.

Mae'r mesurau rheoli BSE llym a gyflwynwyd yn y DU ym 1988 ([Rheoliadau Porthiant 1988](#)), 1996 ([Gorchymyn Enffalopathi Sbyngffurf Buchol \(Diwygio\) 1996](#)), ac yn 2001 ([Rheoliad \(CE\) Rhif 999/2001](#)) yn gwahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid fferm, gyda rhai eithriadau (gweler yr Atodiad am fwy o fanylion). Mae hyn yn atal cyfryngau BSE rhag cael eu hailgylchu yn ôl i'r boblogaeth o anifeiliaid sy'n cnoi cil (gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr a cheirw). Mae cydymffurfiad â'r rheolaethau bwyd anifeiliaid hyn hefyd yn cael ei fonitro gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) drwy'r [Archwiliad Cenedlaethol o Fwydydd Anifeiliaid \(NFA\)](#).

Mae'r rheolaethau bwyd anifeiliaid hyn, ymysg mesurau rheoli BSE eraill, wedi lleihau nifer yr achosion o BSE yn sylweddol yn y DU. Dim ond pum achos o BSE clasurol sydd wedi bod yn y DU ers 2014.

Mae ein dealltwriaeth o BSE a sut y caiff ei drosglwyddo hefyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, ac nid yw'r rheoliadau bwyd anifeiliaid bellach yn adlewyrchu gwybodaeth wyddonol gyfredol na lefel risg BSE.

Er bod y rheolaethau hyn yn effeithiol, cawsant eu creu mewn modd rhagofalus pan oedd gwybodaeth am BSE yn gyfyngedig. Ers hynny, mae ymchwil wedi dangos nad yw moch a dofednod yn agored i TSEau yn naturiol, ac mae gwelliannau mewn dulliau profi bwyd yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng proteinau anifeiliaid sy'n cnoi cil a phroteinau anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil os ydynt yn cael eu canfod mewn bwyd ac rydym yn gallu canfod presenoldeb protein moch neu dofednod.

Yn 2021, diwygiodd yr Undeb Ewropeaidd (UE) ei ddeddfwriaeth TSE i ganiatáu defnyddio ystod ehangach o broteinau anifeiliaid mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil. Mae'r UE wedi caniatáu'r canlynol:

- protein dofednod wedi'i brosesu mewn bwyd moch
- protein moch wedi'i brosesu mewn bwyd dofednod
- protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd moch a dofednod
- collagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil



Mae'r diwygiadau hyn yn rhan o [fap TSE yr UE](#) i adolygu rheolaethau BSE yng ngoleuni'r gostyngiad yn nifer yr achosion o BSE a gwell dealltwriaeth o'r clefyd. Roedd y DU yn cefnogi'r map pan oedd yn aelod o'r UE.

Daeth asesiad risg o'r newidiadau arfaethedig i'r casgliad bod y rhain yn rhoi'r un lefel o warchodaeth i iechyd dyn ac anifeiliaid â'r mesurau rheoli presennol. Felly, bwriad yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn ynghylch diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig er mwyn rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith.

Byddai'r newidiadau hyn yn galluogi buddsoddi yn y sector protein pryfed, yn agor marchnadoedd newydd i rendrwy, ac yn galluogi amrywio diet anifeiliaid, gan sicrhau ein bod yn cynnal lefel uchel y DU o bioddiogelwch ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid a pheidio â chynyddu'r risg TSE. Byddai hefyd yn sicrhau chwarae teg gyda'r UE.

Bydd mesurau diogelu allweddol yn parhau i fod ar waith, gan gynnwys gwahardd protein wedi'i brosesu o anifeiliaid sy'n cnoi cil rhag cael ei fwydo i anifeiliaid sy'n cnoi cil, gofyniad gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (WOAH). Byddai rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) yn dal i wahardd ailgylchu o fewn yr un rhywogaeth.

## Cefndir

Er mwyn rheoli lledaeniad BSE, cyflwynodd y DU becynnau deddfwriaethol amrywiol rhwng 1988 a 1996, ac arweiniodd hynny at roi'r gwaharddiad atgyfnerthedig ar fwyd anifeiliaid ar waith ar 1 Awst 1996 a oedd yn gwahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid fferm, gyda rhai eithriadau.

Cafodd hyn ei ddilyn gan reolaethau bwyd anifeiliaid ar draws yr UE yn 2001 drwy fabwysiadu Rheoliad (CE) 999/2001. Mae'r rheolaethau ar fwyd anifeiliaid wedi cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd wrth i wybodaeth wyddonol ddatblygu. Mae'r tabl yn yr Atodiad yn crynhoi'r rheolaethau bwyd presennol ar gyfer anifeiliaid fferm.

Mae cydymffurfiaid â'r rheolaethau bwyd yn cael ei fonitro drwy'r Archwiliad Cenedlaethol o Fwydydd Anifeiliaid (NFA), sef rhaglen monitro cydymffurfiaeth a gynhelir gan APHA, asiantaeth weithredol Defra sy'n gyfrifol am gadw golwg ar TSE ym Mhrydain Fawr. Mae'r rhaglen arolygu a samplu hon, a gynhelir ar wahanol gamau o'r gadwyn bwyd anifeiliaid, yn monitro presenoldeb cynhwysion gwaharddedig sy'n dod o anifeiliaid yn y bwyd. Pwrpas yr NFA yw diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Mae'r gwaharddiad ar fwyd anifeiliaid, sy'n cael ei fonitro drwy'r NFA, ochr yn ochr â rheolaethau BSE eraill fel gwyliadwriaeth oddefol a gweithredol a chael gwared ar Ddeunydd Risg Penodol adeg lladd, wedi lleihau nifer yr achosion o BSE yn sylweddol yn y DU. Yn 2001, cadarnhawyd 1,113 achos o BSE o'i gymharu â dim ond 5 achos o BSE clasurol ers 2014.

Er bod y rheolaethau hyn yn effeithiol, cawsant eu creu mewn modd rhagofalus pan oedd gwybodaeth am BSE yn gyfyngedig. Ers hynny, mae ymchwil wedi dangos nad yw moch a dofednod yn agored i TSE yn naturiol. Darllenwch [The potential for transmissible spongiform encephalopathies in non-ruminant livestock and fish](#) a [Survey for transmissible spongiform encephalopathies in Irish pigs fed meat and bone meal](#).

Mae gwelliannau mewn dulliau profi bwyd yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng proteinau anifeiliaid sy'n cnoi cil a phroteinau anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil os ydynt yn cael eu canfod mewn bwyd ac i ganfod a yw'r protein yn dod o foch neu ddofednod. Darllenwch [Real-time PCR detection and identification of prohibited mammalian and avian material in animal feeds](#), [Validation study of a real-time PCR method developed by CRA-W for the detection of pig DNA in feedingstuffs](#) a [Validation study of a real-time PCR method developed for the detection of poultry DNA in feedingstuffs](#).

Yn 2021, roedd yr UE wedi caniatáu:

- protein dofednod wedi'i brosesu mewn bwyd moch
- protein moch wedi'i brosesu mewn bwyd dofednod
- protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd moch a dofednod
- colagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil

Mae'r diwygiadau hyn yn rhan o fap TSE yr UE i adolygu rheolaethau BSE yng ngoleuni'r gostyngiad yn nifer yr achosion o BSE a gwell dealltwriaeth o'r clefyd. Roedd y DU yn cefnogi'r map pan oedd yn aelod o'r UE. Mae'r diwygiadau'n berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan ddarpariaethau [Cytundeb Windsor](#).

Ym mis Mehefin 2023, cwblhaodd APHA asesiadau risg ar effaith bosibl mabwysiadu'r newidiadau hyn ym Mhrydain Fawr ar iechyd anifeiliaid. Dangosodd yr asesiadau hyn fod y risg gyffredinol i anifail yn y DU gael ei heintio â TSE yn sgil llacio'r ddeddfwriaeth hon yn isel iawn, ac nid amcangyfrifir y byddai'n arwain at gynnydd yn lefel haint a lledaeniad TSE. Daeth y [Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd \(ACMSF\)](#), sef pwyllgor o arbenigwyr annibynnol sy'n rhoi cyngor i'r llywodraeth ar gwestiynau sy'n ymwneud â materion microbiolegol a bwyd, i'r casgliad bod yr asesiadau risg yn darparu sicrwydd iechyd y cyhoedd ar gyfer y newid polisi hwn os bydd rheolaethau BSE allweddol eraill yn parhau i fod ar waith. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adran annibynnol, anweinidogol o'r llywodraeth a hi yw'r awdurdod cymwys ar gyfer polisi bwyd, diogelwch bwyd a hylendid yn y DU. Ar sail y cyngor hwn gan ACMSF, penderfynodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd nad oes angen asesiad risg iechyd y cyhoedd yng nghyswllt mabwysiadu'r newidiadau hyn.

Mae'n bwysig nodi y byddai'r newidiadau hyn yn ddadreoleddiol ac yn alluogol i ddiwydiant. Mae unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig hyn wedi'u dylunio i ddiogelu iechyd anifeiliaid drwy osgoi ailgylchu o fewn yr un rhywogaeth neu groeshalgiad bwyd anifeiliaid sy'n cnoi cil. Gall pob busnes benderfynu a yw am ddefnyddio'r newidiadau arfaethedig, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

## Newidiadau polisi arfaethedig

Pwrpas y newidiadau arfaethedig yw galluogi defnyddio'r canlynol:

- protein dofednod wedi'i brosesu mewn bwyd moch
- protein moch wedi'i brosesu mewn bwyd dofednod
- protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd moch a dofednod
- colagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil

Byddai hyn yn cael ei gyflawni gydag offeryn statudol i newid Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 a gymhathwyd.

## Manylion y newidiadau polisi arfaethedig

### Nodau'r polisi

Y nodau yw:

- sicrhau bod rheolaethau bwyd anifeiliaid ym Mhrydain Fawr yn gymesur â'r risg TSE bresennol a'u bod yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol diweddaraf
- cefnogi diwydiant a sicrhau bod ein rheoliadau yn galluogi, ac yn annog, buddsoddi mewn diwydiannau anifeiliaid a'u twf
- cefnogi'r diwydiant i gyflawni ei nodau cynaliadwyedd ffermio

### Monitro ac atal croeshalogi

Petai'r newidiadau hyn yn cael eu mabwysiadu, mae'n bwysig sicrhau na fydd cynnydd mewn risg TSE yn y DU. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen atal unrhyw groeshalodiad yn y gadwyn bwyd anifeiliaid a fyddai'n achosi bwydo anghyfreithlon.

Mae Defra wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban (FSS) ac APHA i ddatblygu gofynion croeshalogi arfaethedig a fydd yn monitro ac yn atal croeshalodiad ar draws y gadwyn bwyd anifeiliaid. Mae'r newidiadau wedi'u dylunio i beidio â bod yn niweidiol i'r arferion cyfredol. Rydym yn gofyn am farn ar y mesurau arfaethedig hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Byddai'r mesurau atal croeshalodiad hyn yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth, a byddai APHA yn cyhoeddi canllawiau os cytunir ar y newidiadau hyn sy'n egluro'r gofynion deddfwriaethol i atal croeshalodiad yn y gadwyn fwyd a'r gadwyn bwyd anifeiliaid.

Byddai'n adeiladu ar y [nodyn cyfarwyddyd presennol ar reolaethau bwyd anifeiliaid yn y Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy](#) a gyhoeddwyd yn 2018. Bydd llwybrau gorfodi presennol yn berthnasol i'r rheolaethau newydd

### Mesurau atal croeshalodiad arfaethedig ar gyfer protein dofednod wedi'i brosesu sydd wedi'i fwriadu ar gyfer bwyd moch

Mae'r amodau hyn yn berthnasol i gynhyrchu a defnyddio protein wedi'i brosesu sy'n dod o ddofednod y bwriedir ei ddefnyddio i fwydo moch.

### Lladd-dai a gweithfeydd torri

Rhaid i sgil-gynhyrchion anifeiliaid y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu protein dofednod wedi'i brosesu ddod o ladd-dai neu weithfeydd torri sydd wedi'u cofrestru gan yr awdurdod cymwys fel rhai nad ydynt yn lladd neu'n prosesu anifeiliaid cnoi cil neu foch, oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn fodlon bod:

- proses lladd y dofednod yn cael ei gwneud ar linellau ar wahân i anifeiliaid cnoi cil a moch
- y cyfleusterau casglu, storio, cludo a phacio ar gyfer cynhyrchion dofednod ar wahân i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid cnoi cil a moch
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid cnoi cil neu foch

### **Gweithfeydd rendro, gwneuthurwyr cynhwysion bwyd anifeiliaid a gweithfeydd porthiant cyfansawdd**

Rhaid i gynhyrchion sy'n dod o ddofednod ac y bwriedir eu bwydo i foch gael eu cynhyrchu mewn gweithfeydd prosesu a gofrestrwyd gan yr awdurdod cymwys fel rhai sy'n prosesu cynhyrchion dofednod yn unig.

Oni bai, ar ôl eu harchwilio, bod yr awdurdod cymwys yn fodlon bod:

- y broses o gynhyrchu cynhyrchion dofednod y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd moch yn cael ei gwneud mewn system gaeedig sydd ar wahân i'r un a ddefnyddir i gynhyrchu cynhyrchion anifeiliaid cnoi cil neu foch
- y cyfleusterau casglu, storio, cludo a phacio deunydd crai a gorffenedig swmp sy'n dod o ddofednod yn cael eu cadw ar wahân i'r rhai sy'n dod o anifeiliaid cnoi cil neu foch
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid cnoi cil neu foch

Rhaid i'r cynhyrchion gael eu labelu'n gywir, a rhaid i'r ddogfen fasnachol neu'r dystysgrif iechyd gysylltiedig gael eu llenwi'n gywir.

### **Cyfunwyr gartref**

Ni fydd angen cael awdurdod i gynhyrchu bwyd cyflawn o fwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein dofednod wedi'i brosesu os yw cyfunwyr gartref yn gwneud y canlynol:

- cofrestru gyda'r awdurdod cymwys eu bod yn gwneud hynny
- ddim yn cadw anifeiliaid fferm heblaw moch, anifeiliaid dyframaethu neu anifeiliaid ffwr
- Mae'r bwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein dofednod wedi'i brosesu a ddefnyddir yn eu prosesau cynhyrchu yn cynnwys llai na 50% o brotein crai

### **Ffermydd**

Gwaherddir defnyddio a storio protein dofednod wedi'i brosesu ar ffermydd sy'n cadw rhywogaethau fferm nad yw'r bwyd anifeiliaid wedi'i fwriadu ar eu cyfer. Oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn cael sicrwydd bod mesurau ar y fferm yn atal y bwyd cyfansawdd rhag cael ei fwydo i anifeiliaid nad yw wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

## **Trafnidiaeth**

Rhaid i gynhyrchion dofednod a fwriedir ar gyfer cynhyrchu protein dofednod wedi'i brosesu ar gyfer bwyd moch gael eu cludo i safle prosesu mewn cerbydau a chynhwysyddion sydd wedi'u neilltuo i hynny a dim byd arall.

Caiff cerbydau a chynhwysyddion sydd wedi cael eu defnyddio yn flaenorol i gludo cynhyrchion sy'n dod o foch ac anifeiliaid cnoi cil gludo cynhyrchion dofednod ar yr amod eu bod yn cael eu glanhau'n drylwyr yn unol â'r weithdrefn ysgrifenedig sydd wedi cael ei hawdurdodi gan yr awdurdod cymwys.

## **Labelu**

Rhaid nodi'r geiriau 'contains processed animal protein derived from poultry – shall not be used in feed for farmed animals except aquaculture animals, fur animals and porcine animals' yn glir ar label protein anifeiliaid wedi'i brosesu sy'n dod o ddofednod a bwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein anifeiliaid wedi'i brosesu sy'n dod o ddofednod. Rhaid llenwi dogfen fasnachol gysylltiedig hefyd.

## **Mesurau atal croeshalgiad arfaethedig ar gyfer protein moch wedi'i brosesu sydd wedi'i fwriadu ar gyfer bwyd dofednod**

Mae'r amodau hyn yn berthnasol i gynhyrchu a defnyddio protein wedi'i brosesu sy'n dod o foch y bwriedir ei ddefnyddio i fwydo dofednod.

### **Lladd-dai a gweithfeydd torri**

Rhaid i sgil-gynhyrchion anifeiliaid y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu protein moch wedi'i brosesu ddod o ladd-dai neu weithfeydd torri sydd wedi'u cofrestru gan yr awdurdod cymwys fel rhai nad ydynt yn lladd neu'n prosesu anifeiliaid cnoi cil neu ddofednod, oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn fodlon bod:

- proses lladd y moch yn cael ei gwneud ar linellau ar wahân i anifeiliaid cnoi cil a dofednod
- y cyfleusterau casglu, storio, cludo a phacio ar gyfer cynhyrchion moch ar wahân i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid cnoi cil a dofednod
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid cnoi cil neu ddofednod

### **Gweithfeydd rendro, gwneuthurwyr cynhwysion bwyd anifeiliaid a gweithfeydd porthiant cyfansawdd**

Rhaid i gynhyrchion sy'n dod o foch ac y bwriedir eu bwydo i ddofednod gael eu cynhyrchu mewn gweithfeydd prosesu a gofrestrwyd gan yr awdurdod cymwys fel rhai sy'n prosesu cynhyrchion moch yn unig.

Oni bai, ar ôl eu harchwilio, bod yr awdurdod cymwys yn fodlon bod:

- y broses o gynhyrchu cynhyrchion moch y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd dofednod yn cael ei gwneud mewn system gaeedig sydd ar wahân i'r un a ddefnyddir i gynhyrchu cynhyrchion anifeiliaid cnoi cil neu ddofednod

- y cyfleusterau casglu, storio, cludo a phacio deunydd crai a gorffenedig swmp sy'n dod o foch yn cael eu cadw ar wahân i'r rhai sy'n dod o anifeiliaid cnoi cil neu ddofednod
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid cnoi cil neu ddofednod

Rhaid i'r cynhyrchion gael eu labelu'n gywir, a rhaid i'r ddogfen fasnachol neu'r dystysgrif iechyd gysylltiedig gael eu llenwi'n gywir.

### **Cyfunwyr gartref**

Ni fydd angen cael awdurdod i gynhyrchu bwyd cyflawn o fwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein moch wedi'i brosesu os yw cyfunwyr gartref yn gwneud y canlynol:

- cofrestru gyda'r awdurdod cymwys eu bod yn gwneud hynny
- ddim yn cadw anifeiliaid fferm heblaw dofednod, anifeiliaid dyframaethu neu anifeiliaid ffwr
- mae'r bwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein moch wedi'i brosesu a ddefnyddir yn eu prosesau cynhyrchu yn cynnwys llai na 50% o brotein crai

### **Ffermydd**

Gwaherddir defnyddio a storio protein moch wedi'i brosesu ar ffermydd sy'n cadw rhywogaethau fferm nad yw'r bwyd anifeiliaid wedi'i fwriadu ar eu cyfer. Mae hyn oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn cael sicrwydd bod mesurau ar y fferm yn atal y bwyd cyfansawdd rhag cael ei fwydo i anifeiliaid nad yw wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

### **Trafnidiaeth**

Rhaid i gynhyrchion moch a fwriedir ar gyfer cynhyrchu protein moch wedi'i brosesu ar gyfer bwyd dofednod gael eu cludo i safle prosesu mewn cerbydau a chynhwysyddion sydd wedi'u neilltuo i hynny a dim byd arall.

Caiff cerbydau a chynhwysyddion sydd wedi cael eu defnyddio yn flaenorol i gludo cynhyrchion sy'n dod o ddofednod ac anifeiliaid cnoi cil gludo cynhyrchion moch ar yr amod eu bod yn cael eu glanhau'n drylwyr yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig sydd wedi cael ei hawdurdodi gan yr awdurdod cymwys.

### **Labelu**

Rhaid nodi'r geiriau 'contains processed animal protein derived from porcine animals – shall not be used in feed for farmed animals except aquaculture animals, fur animals and poultry' yn glir ar label protein anifeiliaid wedi'i brosesu sy'n dod o foch a bwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein anifeiliaid wedi'i brosesu sy'n dod o foch. Rhaid llenwi dogfen fasnachol gysylltiedig hefyd.

## **Mesurau atal croeshalgiad arfaethedig ar gyfer protein pryfed wedi'i brosesu sydd wedi'i fwriadu ar gyfer bwyd moch neu dofednod**

Mae'r amodau hyn yn berthnasol i gynhyrchu a defnyddio protein wedi'i brosesu sy'n dod o bryfed fferm y bwriedir ei ddefnyddio i fwydo dofednod neu foch.

### **Gwneuthurwyr cynhwysion bwyd anifeiliaid**

Rhaid i brotein wedi'i brosesu sy'n dod o bryfed fferm gael ei gynhyrchu mewn gweithfeydd prosesu sydd wedi'u neilltuo i gynhyrchion pryfed fferm a dim byd arall, ac a gymeradwyir yn unol â'r rheoliadau perthnasol.

Oni bai, ar ôl eu harchwilio, bod yr awdurdod cymwys yn fodlon bod:

- y broses o gynhyrchu protein wedi'i brosesu sy'n dod o anifeiliaid sy'n cnoi cil neu anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil ac eithrio pryfed yn cael ei gwneud mewn system gaeedig sydd ar wahân i'r un a ddefnyddir i gynhyrchu protein pryfed wedi'i brosesu
- y cyfleusterau casglu, storio, cludo a phacio deunydd crai a gorffenedig swmp sy'n dod o anifeiliaid sy'n cnoi cil neu anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil ac eithrio pryfed yn cael eu cadw ar wahân i'r rhai sy'n dod o bryfed
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid cnoi cil

Rhaid i'r cynhyrchion gael eu labelu'n gywir, a rhaid i'r ddogfen fasnachol neu'r dystysgrif iechyd gysylltiedig gael eu llenwi'n gywir.

### **Gweithfeydd porthiant cyfansawdd a chyfunwyr gartref**

Rhaid i fwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein wedi'i brosesu sy'n dod o bryfed fferm gael ei gynhyrchu mewn sefydliadau sydd wedi'u hawdurdodi at y diben hwnnw gan yr awdurdod cymwys ac sydd wedi'u neilltuo'n gyfan gwbl i gynhyrchu bwyd ar gyfer anifeiliaid dyframaethu, dofednod neu foch, oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn fodlon bod:

- y cyfleusterau cynhyrchu, casglu, storio, cludo a phacio protein pryfed wedi'i brosesu y bwriedir ei ddefnyddio mewn bwyd moch a dofednod yn cael eu cadw ar wahân i'r rhai y bwriedir eu defnyddio ar gyfer anifeiliaid cnoi cil
- y cyfleusterau cynhyrchu, casglu, storio, cludo a phacio protein pryfed wedi'i brosesu y bwriedir ei ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid dyframaethu, dofednod neu foch yn cael eu cadw ar wahân i'r rhai y bwriedir eu defnyddio ar gyfer anifeiliaid eraill nad ydynt yn cnoi cil
- y broses o gynhyrchu bwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein pryfed wedi'i brosesu yn cael ei gwneud mewn system gaeedig sydd ar wahân i'r un a ddefnyddir i gynhyrchu protein anifeiliaid cnoi cil wedi'i brosesu
- cofnodion prynu, gwerthu a defnyddio yn cael eu cadw
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid cnoi cil

Rhaid i'r cynhyrchion gael eu labelu'n gywir, a rhaid i'r ddogfen fasnachol neu'r dystysgrif iechyd gysylltiedig gael eu llenwi'n gywir.

Ar gyfer cyfunwyr gartref, ni fydd angen cael awdurdod i gynhyrchu bwyd cyflawn o fwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein pryfed fferm wedi'i brosesu os gwneir y canlynol:

- cofrestru gyda'r awdurdod cymwys eu bod yn gwneud hynny
- cadw anifeiliaid dyframaethu, dofednod a moch yn unig
- mae'r bwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein pryfed wedi'i brosesu a ddefnyddir yn eu prosesau cynhyrchu yn cynnwys llai na 50% o brotein crai

## **Ffermydd**

Gwaherddir defnyddio a storio protein pryfed wedi'i brosesu ar ffermydd sy'n cadw rhywogaethau fferm nad yw'r bwyd anifeiliaid wedi'i fwriadu ar eu cyfer. Oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn cael sicrwydd bod mesurau ar y fferm yn atal y bwyd cyfansawdd rhag cael ei fwydo i anifeiliaid nad yw wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

## **Mesurau atal croeshalgiad arfaethedig ar gyfer colagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil sydd wedi'i fwriadu ar gyfer bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil**

### **Lladd-dai a gweithfeydd torri**

Ni fwriedir newid y ddeddfwriaeth bresennol.

### **Gweithfeydd rendro, gwneuthurwyr cynhwysion bwyd anifeiliaid, gweithfeydd porthiant cyfansawdd a chyfunwyr gartref**

Rhaid i brosesau cynhyrchu bwyd cyfansawdd y bwriedir ei ddefnyddio i fwydo anifeiliaid fferm nad ydynt yn cnoi cil gael ei gofrestru gan yr awdurdod cymwys fel rhai nad ydynt yn cynhyrchu bwyd ar gyfer anifeiliaid cnoi cil, oni bai bod yr awdurdod cymwys, ar ôl eu harchwilio, yn fodlon bod:

- y cyfleusterau cynhyrchu, casglu, storio, cludo a phacio bwyd y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil yn cael eu cadw ar wahân i'r rhai y bwriedir eu defnyddio ar gyfer anifeiliaid sy'n cnoi cil
- cofnodion prynu, gwerthu a defnyddio yn cael eu cadw
- gwaith samplu a dadansoddi yn cael ei wneud yn rheolaidd i fonitro presenoldeb protein anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil

Rhaid i'r cynhyrchion gael eu labelu'n gywir, a rhaid i'r ddogfen fasnachol neu'r dystysgrif iechyd gysylltiedig gael eu llenwi'n gywir.

### **Cyfunwyr gartref**

Ni fydd angen cael awdurdod i gynhyrchu bwyd cyflawn o fwyd cyfansawdd sy'n cynnwys protein anifeiliaid cnoi cil wedi'i brosesu os yw cyfunwyr gartref yn gwneud y canlynol:

- cofrestru gyda'r awdurdod cymwys eu bod yn gwneud hynny
- cadw anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil yn unig
- cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol



## Ffermydd, cludo, storio, labelu

Ni fwriedir newid y ddeddfwriaeth bresennol.

## Ystyriaethau Halal a Kosher

Ni fydd anifeiliaid sy'n cael eu magu ar ddietau rhannol gigysol yn cael eu hystyried yn Halal na Kosher. Cyn yr ymgynghoriad hwn, cysylltodd Defra ag awdurdodau ardystio Halal a Kosher sy'n arbenigwyr yng nghyfraith Sharia a Kashrut. Mae Defra wedi cael sicrwydd bod cynlluniau ardystio Halal yn ddigon cadarn i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu magu ar y diet cywir er mwyn cydymffurfio â chyfraith Sharia. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu defnyddio protein wedi'i brosesu o foch, dofednod a phryfed mewn porthiant dyframaethu.

## Manteision y newidiadau arfaethedig

### Manteision amgylcheddol

Mae manteision amgylcheddol posibl i ddefnyddio proteinau anifeiliaid mewn bwyd i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil, a hynny yn sgil llai o ddibyniaeth ar fwyd sy'n seiliedig ar ffa soia. Mae tua 76% o'r soia sy'n cael ei gynhyrchu'n fyd-eang yn mynd tuag at fwyd anifeiliaid, yn bennaf moch a dofednod. Darllenwch [Forests and Deforestation](#). Yn 2022, mewforiodd y DU 3.46 miliwn tonn o'r hyn sy'n cyfateb i ffa soia, gyda 90% naill ai'n cael ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid neu wedi'i gynnwys mewn cig, wyau neu gynnwys llawer wedi'i fewnforio. Darllenwch [UK Roundtable on Sustainable Soya: Annual progress report 2023](#). Mae'r diwydiant ffa soia yn cyfrannu'n sylweddol at ddatgoedwigo ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, gyda dros 75.5 miliwn hectar yn cael ei drin ar draws y byd.

Mae Defra yn ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys dadansoddi cylch bywyd, ar fanteision amgylcheddol posibl defnyddio protein pryfed mewn bwyd anifeiliaid o'i gymharu â ffa soia a blawd pysgod. Fel anifeiliaid fferm, gwaherddir bwydo tail, gwastraff arlwygo a deunydd porthiant sy'n cynnwys gwastraff arlwygo neu sy'n deillio ohono, i bryfed. Rydym yn ymwybodol o arloesedd yn y sector protein pryfed sy'n nodi is-haenau pryfed newydd sy'n cael eu tanddefnyddio fel arfer. Gallai'r datblygiadau arloesol hyn, yn y tymor canolig, gyfrannu at gadwyn gyflenwi fyd-eang sy'n fwy cynaliadwy, a lleihau'r ddibyniaeth ar fwyd sy'n seiliedig ar ffa soia.

### Manteision economaidd

Byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn sicrhau tegwch gyda'r UE, ac yn darparu llwyfan a fydd yn caniatáu buddsoddi yn y sector protein pryfed ym Mhrydain Fawr. Mae mantais bosibl i'r sector protein pryfed wedi'i brosesu gan y byddai'n gallu gwerthu ei gynnwys i farchnad Prydain Fawr drwy ddefnyddio protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd moch a dofednod. Mae mwy a mwy o ddiddordeb mewn defnyddio pryfed mewn bwyd anifeiliaid, gyda phrydau pryfed yn cynnwys rhwng 50 ac 82% o brotein crai yn ogystal â maetholion pwysig eraill. Darllenwch [The Future of Animal Feed: Animal by-products and insects](#). Roedd y farchnad fyd-eang ar gyfer protein pryfed yn werth tua \$540 miliwn yn 2022 a rhagwelir y bydd yn cyrraedd \$1.4 biliwn erbyn 2029, gydag Ewrop yn cyfrif am tua un

rhan o bump o'r farchnad. Darllenwch [Global Insect Protein Market – Industry Trends and Forecast to 2031](#). Gallai caniatáu defnyddio protein pryfed wedi'i brosesu mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil alluogi twf y farchnad hon ym Mhrydain Fawr. Er enghraifft, yn 2017 caniatodd yr UE a'r DU ddefnyddio protein wedi'i brosesu o saith rhywogaeth o bryfed mewn bwyd dyframaethu yn ogystal â bwyd anifeiliaid anwes, gan gynnwys pryfed milwrol du a rhywogaethau o gynrhon y blawd a chriciaid. Erbyn hyn, mae pryfed milwrol du (ac, i raddau llai, cynrhon y blawd melyn) yn cael eu ffermio mewn gwahanol leoliadau yn y DU. Mae amcangyfrifon Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd ar gyfer Natur yn awgrymu y gallai'r galw am brotein pryfed yn y DU fod dros 500,000 tonnall erbyn 2050, gyda hanner yn cael ei gyflenwi yn y wlad. Darllenwch [Future of Feed](#): a WWF roadmap to accelerating insect protein in UK feeds. Gan fod ffermio pryfed newydd ddechrau datblygu ac o ystyried ei ofynion (er enghraifft, trin is-haenau gwastraff yn hylan a chanfod halogyddion microsgopig), gall hefyd fod yn sbardun ar gyfer arloesi mewn sectorau eraill, fel biodechnoleg.

Mae manteision posibl i'r diwydiant, gan gynnwys gweithfeydd prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynhyrchu protein moch neu ddofednod wedi'i brosesu gan y byddent hefyd yn gallu gwerthu i farchnad Prydain Fawr i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd moch a dofednod. Mae data o'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r diwydiant yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r protein moch a dofednod wedi'i brosesu sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yn cael ei allforio i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid anwes, gydag ychydig bach yn cael ei ddefnyddio gan ddiwydiant bwyd anifeiliaid anwes y DU. Mae sgil-gynhyrchion moch yn aml yn cael eu cymysgu â sgil-gynhyrchion anifeiliaid cnoi cil - mae gwerth y cynhyrchion protein wedi'i brosesu cymysg yn is na gwerth protein moch wedi'i brosesu. Felly, byddai caniatáu defnyddio protein moch a dofednod wedi'i brosesu mewn bwydydd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil yn golygu bod modd eu marchnata'n fwy eang sy'n dda ar gyfer amrywio ystod cynnyrch a sicrhau bod marchnadoedd yn parhau i fod yn gystadleuol.

Cynhaliwyd treialon a oedd yn cynnwys bwydo protein moch wedi'i brosesu (3.5%) i ddofednod, a chanfuwyd ei fod yn arwain at ostyngiad mewn marwolaethau a chanibaliaeth ac yn gwella ansawdd y plu. Gall defnyddio protein anifeiliaid wedi'i brosesu leihau ôl troed carbon bwyd anifeiliaid.

## Atodiad

### Y safle cyfreithiol o ran defnyddio protein anifeiliaid wedi'i brosesu mewn bwyd anifeiliaid ym Mhrydain Fawr

Defnydd cyfreithiol o brotein anifeiliaid wedi'i brosesu, newidiadau arfaethedig, ac arferion bwydo sydd wedi'u gwahardd ym Mhrydain Fawr.

Cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid	Anifail cnoi cil	Moch	Dofednod	Pysgod	Arall	Anifeiliaid anwes a ffwr
Protein anifeiliaid cnoi cil wedi'i brosesu gan gynnwys blawd gwaed anifeiliaid cnoi cil	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Cynnyrch gwaed o anifeiliaid cnoi cil	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Gelatin a cholagen o anifeiliaid cnoi cil	Anghyfreithlon	Newid arfaethedig	Newid arfaethedig	Newid arfaethedig	Newid arfaethedig	Cyfreithlon
Proteinau wedi'u hydroleiddio o feinwe anifeiliaid cnoi cil ar wahân i grwyn	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Protein anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil wedi'i brosesu gan gynnwys blawd gwaed anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil ond heb gynnwys protein moch a dofednod wedi'i brosesu a blawd pysgod	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Protein dofednod wedi'i brosesu	Anghyfreithlon	Newid arfaethedig	Anghyfreithlon	Cyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Protein moch wedi'i brosesu	Anghyfreithlon	Anghyfreithlon	Newid arfaethedig	Cyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Protein pryfed wedi'i brosesu	Anghyfreithlon	Newid arfaethedig	Newid arfaethedig	Cyfreithlon	Anghyfreithlon	Cyfreithlon
Blawd pysgod o bysgod fferm	Anghyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon
Cynnyrch gwaed o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil	Anghyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon
Ffosffad dicalsiwm a thrcalsiwm sy'n dod o anifeiliaid	Anghyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon
Proteinau anifeiliaid eraill heb eu rhestru	Anghyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon
Proteinau wedi'u hydroleiddio o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil neu o grwyn anifeiliaid cnoi cil	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon
Gelatin a cholagen o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon
Wyau, cynhyrchion wyau, llaeth, cynnyrch llaeth a cholostwrwm	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon	Cyfreithlon